



Cymydau Llŷn - Gweinyddiaeth y Canol Oesoedd

Yn ystod yr Oesoedd Canol roedd Gwynedd wedi'i rannu'n weinyddol yn gantrefi, a Llŷn yn un ohonynt.

Gallai teulu Madryn a gododd Plas Glyn y Weddw olrhain eu hachau yn ôl i Llowarch Howlbwrch. Mae llun carw yn arfbais y teulu, ac mae i'w weld mewn ffenestr liw yn y plasty.

Mae'r arfbais yn mynd â ni yn ôl i gyfnod y cymydau ac yn **Afloegion** (Cafflogion) ar ochr ddwyreiniol Llŷn yr oedd plwyfi Llanbedrog, Llangian, Botwnnog, Mellteyrn, Llanfihangel Bachllaeth, Penrhos, Carnguwch a Deneio (Pwllheli heddiw). Yn Deneio 'roedd maerdref (pencadlys gweinyddol) Cafflogion. Afloeg un o feibion Cunedda o'r Hen Ogledd a thad i Eternus, nawddsant Edern, sefydlodd y cwmwd.

Neigwl, ar y gwastatir o dan Blas yn Rhiw, oedd maerdref cwmwd **Cymydmaen**. I'w lys yn y faerdref y deuai'r tywysog yn ei dro ac yma câi'r rhenti a'r tollau eu talu mewn arian neu trwy lafur – cario neu atgyweirio. Ar yr allt fôr yn Uwchmynydd mae Maen Melyn Llŷn (SH139252) roddodd ei enw i gwmwd Cymydmaen, 'cwmwd + maen'. Mae ym mhen eithaf y penrhyn yn cynnwys plwyfi Penllech, Llangwnnadr, Bryncroes, Llandygwning, Llanengan, Rhiw, Llanfaelrhys ac Aberdaron.

Y trydydd cwmwd oedd **Dinllaen** a dyna o ble y daw'r enw Porthdinllaen. 'Dynthlayn' oedd yr enw yn nechrau'r 13egG, sef 'dinas' (caer) + 'Llaen' (enw personol Gwyddelig) ac yn cyfeirio at y gaer arfordirol ar y penrhyn (SH 275416).

Mae'r enw Porthdinllaen yn awgrymu mai hwn oedd prif harbwr y cwmwd ond yn Nefyn 'roedd y faerdref a llys y tywysog.

Mae Dinllaen yn cynnwys plwyfi Pistyll, Nefyn, Edern, Ceidio, Tudweiliog, Llaniestyn, Llandudwen, Boduan a Llannor.

Roedd cant *tref* (sef fferm unigol), mewn cantref ac mae enwau fel Hendrefor a Llawr y Dref wedi goroesi. Trigai'r Cymro bonheddig yn ei dref ei hun yn un pen i'r stad, sef pentref a rhoi inni'r enw Cefn *Pentref* yn Llwyndyrys, a Phentref ym Motwnnog.

Roedd daliad o dir wedi'i etifeddu'n cael ei alw'n *gafael* a rhoi i ni Gyfelan yn Llangwnnadr.

Er bod Cymru dan reolaeth coron Lloegr yn dilyn goresgyniad Edward I, parhaodd â'r drefn weinyddol Gymreig am beth amser. Ond daeth Llŷn i gael ei weinyddu fel rhan o Sir Gaernarfon a buan y daeth Nefyn a Pwllheli i fodolaeth.



Teulu Wern Fawr a Chefn Llanfair



Mewn ffenestr ym Mhlas Glyn y Weddw

Cafodd teulu Cefn Llanfair â theulu Wern Fawr eu huno yn y 16egG a chyn diwedd y ganrif roedd Richard Hughes, Cefn Llanfair yn ymladd ym Mrwydr Cadiz yn Sbaen. Am hynny cafodd swydd yn llys y Frenhines Elizabeth, ond yn Llŷn câi ei adnabod fel Dic Huws, y bardd, ac fel y telynegwr cyntaf yn y Gymraeg.

Daeth y teulu i gryn enwogrwydd hefyd mewn perthynas a gwrachyddiaeth.

Yn 1642 priododd Margaret, etifeddes Wern Fawr, â Sieffre Parry. Piwritan selog ym myddin Cromwell oedd ef tra bod hi o deulu a gefnogai'r frenhiniaeth. Yn ôl y sôn defnyddiodd Parry a'i fyddin eglwys Llanbedrog fel stabl. Dinistriodd ffenestri lliw yr eglwys a cherrig beddau teulu'r Wern Fawr.

Bu'r plwyfolion y ddiogon craff i weld beth oedd ar ddigwydd ac aethant â sgrin yr eglwys i'r traeth a'i chuddio yno, a'i gosod yn ôl yn yr eglwys ar ôl y rhyfel.

Yn 1654 ganwyd plentyn i Sieffre a Margaret Parry a'i alw'n Lovegod Parry.

Wedi dod i'w oed gollyngodd 'god' o'i enw, mae'n cael ei adnabod fel fel Love Parry y laf. Gwnaeth iawn am ddinistr ei dad trwy atgyweirio'r eglwys. Parhaodd y teulu yn hael eu nawdd i'r eglwys.

Cymaint oedd meddwl y plwyfion ohono nes iddynt daenu cadachau gwynion ar y gwrychoedd o Wern Fawr i'r eglwys ar ddiwrnod ei briodas a chadachau duon ar ddiwrnod ei angladd. Bu farw yn 1707 ac mae plac ar fur yr eglwys i'w goffâu.

Etifeddodd Love Parry III stad Madryn trwy ei wraig Sidney Lewis a symud i'r plasty hwnnw i fyw yn niwedd y 18fedG. Priododd eu merch, Margaret â Thomas Parry Jones Parry o Lwyn Onn ger Wrecsam. Bu Thomas Parry Jones Parry yn amlwg iawn yn ymgyrch datblygiad Porthdinllaen Ychwanegodd yn arw at stad Madryn pan lwyddodd trwy Ddeddf Cau Tiroedd Comin 1807, i feddiannu tiroedd gan gynnwys tair mil o erwau ar Fynydd Mynytho.

Crogi yn Llanbedrog



Yn ôl cerdd gan Ieuan Llŷn, crogwyd dau fachgen lleol ger Llanbedrog am ysbeilio llonga a llofruddio'r teithwyr. Ym Mhorth Neigwl y digwyddodd y camwri dychrynlllyd hwn

**Daeth pleserlong hardd yr olwg
I fau Neigwl sydd yn amlwg;
Gyda'r gwylnos distaw rywfodd
Ger y Trwynau yr angorodd.**

**Draw o Ffrainc yn llawn bon'ddigion
Gyda merched ieuainc gwiwlon,
Ar ei bwrdd roedd pawb yn llawen
Heb un cyffro, poen na chynnen. ...**

Ond bu cynllwynio'n lleol, eu 'hud-ddenu at y dibyn' ac yna ymosod arnynt yn ddirugaredd:

**Tori'r bysedd, tori'r clustiau,
Er cael allan aur fodrwyau;
Bwrw'r merched glân i'r tonnau
Dyna rai o'u herchyllderau.**

Canlyniad hyn fu

**Dau yn unig gaed yn euog
O'r camwri anhrugarog
Sion y Sarn a Huw Treheili
Dyna'r ddau a ga'dd eu crogi.**

**Aed â hwy i Forfa Crugan
Ar ddau bolyn mawr i hongian
Yno buont hyd nes braenu
Fel yn rhybudd i'r holl Gymry.**


Ond ar gyhuddiad gwahanol y crogwyd tri o Lanbedrog yn yr un cyfnod.

Yn 1620au bu farw Margaret Hughes, merch Cefn Llanfair a chafodd Mary, ei chwaer ei pharlysio a hynny dan



amgylchiadau amheus. Cafodd tri chymydog eu cyhuddo gan eu brawd, Gruffydd o'u melltithio. Wedi'u cael yn euog o wrachyddiaeth yn y llys yng Nghaernarfon cawsant eu crogi. Dyna fu tynged Rhydderch ap Ifan, ei chwaer Lowri ferch Ifan ac Agnes. Dyma'r unig achos o crogi gwrrachod yng Nghymru.

Codi Plas Glyn y Weddw



Pan fu farw Syr Love Jones Parry, yn 1853 penderfynodd ei weddw, Elizabeth y byddai'n adeiladu cartref iddi'i hun fel y gallai ei mab Thomas Love Duncombe Jones Parry fyw ym Madryn pan fyddai'n priodi.

Plasty Gothig Fictorianaidd ar dir stad Madryn yn 1857 gafodd ei adeiladu a'i alw'n Blas Glyn y Weddw yn addas iawn. Henry Kennedy oedd ei bensaer a derbyniodd gyfarwyddid i'w gynllunio fel oriel yn ogystal â chartref.

Roedd y Fonesig yn ferch i Sarah Coldecot oedd wedi priodi William Lloyd, bugail o Namor a gafodd gyngor gan William Alexander Maddox i chwilio am wraig, os oedd am ddod ymlaen yn y byd. Priododd â Sarah a chymryd ei chyfenw a byw yn y 'Cottage', Llanbedrog fel William Lloyd Caldecot, Gent.

Yn ôl pob sôn roedd yn wraig grintachlyd iawn ond fe wariodd £20,000 ar y plasty rhwng ei ddodrefnu, creu gerddi a llwybrau trwy'r goedwig gyfagos. Cafodd y Plas restru fel Gradd II* gan Cadw oherwydd ei nodweddion arbennig gan gynnwys y grisiau Jacobaidd a'r to trawsgordd.

Arferai'r Fonesig ymweld â'i phlasty yn wythnosol ond yn ôl y sôn ni threuliodd noson yno. Yn wir bu farw yn 1880 saith mlynedd cyn i'w mab briodi.

Gosodwyd y Plas ar rent i deulu Angerstein yn yr 1880'au. Yn 1896 gwerthwyd Plas Glyn y Weddw ynghyd a rhan helaeth o stâd Madryn ar ocsiwn.

Solomon Andrews brynodd y plasty gan ddatblygu dolen glos rhwng Plas Glyn y Weddw â Phwllheli, a chafodd y plasty gyfnod llewyrchus.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n ganolfan i'r 'Land Army' cyn ei werthu yn 1945. Cafodd gyfnod o fod yn fflatiau ond yn ystod yr 1970'au fe'i gadawyd yn wag, dirywiodd yr adeilad a thyfodd y gerddi'n wyllt.

Yna yn 1979 prynodd yr arlunydd Gwyneth ap Tomos a'i gŵr, Dafydd yr adeilad ac wedi llawer o waith adfer cafodd ei ail-agor fel oriel. Fel teyrnged i'r ddau, enwir un o'r ystafelloedd arddangos yn Oriel ap Tomos. Gelwir ystafell arall yn Oriel Kyffin fel teyrnged i'r artist adnabyddus.

Y perchnogion bellach ydi Ymddiriedolaeth Plas Glyn y Weddw; hi ydi oriel hynaf Cymru ac mae'n denu arlunwyr o fri i arddangos eu gwaith yno.

Yr Hen Syr Love



Etifeddodd Thomas Love Jones Parry, mab Thomas Parry Jones Parry stad Madryn yn 1833. Wrth ymladd yn y rhyfel rhwng Lloegr a'r UDA cafodd ei geffyl ei saethu oddi tano. Bu Love yn Aelod Seneddol dros Fwrdeistrtefi Sir Gaernarfon am gyfnod fel un o'r Wigiaid.

Roedd pobol yn cyfeirio ato fel 'Yr Hen Syr Love' gan ei fod yn boblogaidd iawn yn yr ardal. Fel Ynad Heddwch byddai'n aml yn tosturio wrth y tlawd. Doedd yr un meistr tir caredigach a byddai wrth ei fodd yn chwarae triciau ar ei weithwyr.

Yn wahanol i'r rhelyw roedd yn gallu ac yn fodlon siarad Cymraeg ac yn noddwr hael i feirdd ac eisteddfodau. Enillodd Eben Fardd gadair Eisteddfod Trallwng yn 1824 am ei awdl 'Dinistr Jerwsalem' ond methodd â bod yn bresennol. Syr Love gynrychiolodd ef. Roedd hefyd yn gyfaill i Sion Wyn o Eifion.



Pan oedd yn saith deg oed syrthiodd ar lafn pladur a methiant fu'r ymdrech i achub ei goes. Aed a hi i'w chladdu ym mynwent eglwys Llanbedrog. Ymhen y flwyddyn yn 1853 yr oedd yntau wedi marw a'i gladdu yn yr un bedd â'i goes.

Yn dilyn ei farwolaeth penderfynodd ei weddw adeiladu plas iddi hi ei hun ar dir stad Madryn yn Llanbedrog yn 1857. Dyma Blas Glyn y Weddw a'i bwriad oedd symud yno pan briodai ei mab Thomas Love Duncome Jones Parry.

Thomas Love Duncombe Jones Parry



Mab yr Hen Syr Love oedd Thomas Love Duncome Jones Parry. Fe'i ganwyd ym Madryn yn 1832.

Roedd hwn yn debyg iawn i'w dad mewn sawl ystyr ond ei fod yn llawer mwy diog ac ofer. Cymerodd ganrifoedd i gasglu stad Madrun at ei gilydd nes ei bod yn ymestyn dros 17 o blwyfi yn Llŷn, o Lanllyfni i Langwennadl. Eto llwyddodd Jones Parry i'w chwalu mewn tair degawd.

Bu cryn rialtwch pan ddaeth Jones Parry i'w oed. Cafodd eidion ei rostio ar y Maes ym Mhwillheli, ar roedd croeso i bawb i blasty Madryn am fwyd a diod. Cafodd casgenni pyg eu tanio ar y brynau.

Roedd yno gasgliad gwerthfawr o lestri, lluniau gan arlunwyr enwog, llyfrgell â chasgliad o lawysgrifau beirdd y Canol Oesoedd. Arferai'r teulu fwyta oddi ar lestri arian ond câi'r llestri aur eu cadw at achlysuron arbennig.

Cafodd, fel ei dad, addysg fonedd a daeth yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol pan drechodd Douglas Pennant, Penrhyn yn etholiad 1868. Roedd hon yn fuddugoliaeth a chryn arwyddocâd iddi. Ond llawer gwell gan Jones Parry oedd treulio'i amser yn Llundain mewn clybiau a dilyn rasmus ceffylau na mynd i'r Senedd.

Roedd yntau'n noddwr diwylliant Cymraeg a'i enw barddol oedd Elphin ap Gwyddno.

Hoffai o grwydro ac yn 1858 aeth i Sbaen gyda'i fam a'i ddyweddi. Yn ôl dyddiadur ei gariad cawsant wyliau

moethus yn ymweld ag operâu ac ymladdfeydd teirw, Aent i bartion a bu yntau'n hynod o hael efo'i gariad.

Bu ond y dim iddo gael ei ddienyddio yn Gibraltar pan aeth ef gydag Arglwydd Newborough ac eraill drosodd i Sbaen. Wrth groesi'r ffin anwybyddodd orchymyn un o warchodlu Sbaen a thrawodd ef â'i chwip. Cafodd ei arestio a'i gael yn euog, a phe na bai'r frenhines wedi ymyrryd byddai wedi'i ddienyddio.

Ymwelodd ag Ariannin pan aeth Lewis Jones ac yntau i archwilio'r tir ar gyfer sefydlu'r Wladfa. Fel teyrnged i Jones Parry, Porth Madryn (Puerto Madryn) fu enw'r lle y glaniodd y 'Mimosa' gyda'i llwyth o Gymry.

Cafodd ei Urddo'n farchog yn 1883 ac aed dros ben llestri gyda'r dathlu. Rhoddodd gostau'r dathlu yn erbyn y stad a chanlyniad hyn fu gorfod ei gwerthu. Aeth i briodas stormus a gostiodd yn arw iddo yn 1887, saith mlynedd ar ôl i'w fam farw, a bu'n rhaid gwerthu rhagor o'i eiddo.

Bu farw yn 1891 a'i gladdu fel eraill o'i deulu ym mynwent Eglwys Llanbedrog.

Atyniadau Glyn y Weddw



Er 1996, pan ddaeth Plas Glyn y Weddw yn eiddo'r Ymddiriedolaeth, bu datblygiadau cynhyrfus yn yr oriel a'r winllan.

Arddangosfeydd Celf – Mae yn yr oriel chwe ystafell arddangos ac mewn blwyddyn bydd sawl arddangosfa gan artistiaid amlwg a'r lluniau ar werth.

Teyrnged i Gwyneth a Dafydd ap Tomos, y cyn berchenogion yw Oriol Ap Tomos. Mae Oriol Kyffin i anrhydeddu'r arlunydd enwog, Kyffin Williams, a fu'n gefnogwr brwd ar hyd y blynyddoedd.

Pensaerniaeth y Plas - Fe'i codwyd yn 1857 yn gartref i'r Fonesig Elizabeth Jones Parry, Madryn ar gynllun Gothig Fictoriaidd. Mae yma do trawsgordd pur anghyffredin a grisiau Jacobeaidd eang yn arwain at ragor o arddangosfeydd celf, llestri a hanes y plas a'i



gysylltiadau. Cyflwynir hanes y teuluoedd cynnar mewn ffenestri lliw trawiadol.

Arddangosfa Hanes – Yma mae cyfle i ddysgu am hanes teuluoedd Love Jones Parry, Madryn a Solomon Andrews.

Porslen Nantgarw ac Abertawe - Mae yma gasgliad nodedig ar fenthyciad tymor hir gan Ymddiriedolaeth John Andrews.

'Louise' – Cerflun gwerthfawr iawn ar lawnt y plas o waith David Williams-Ellis wedi'i gyflwyno i'r Oriol gan Kyffin Williams.

Cerrig Penprys – Dwy garreg fedd o'r 5 i'r 7fedG yng nghyntedd y Plas. Yn wreiddiol roeddent yng nghae Tir Gwyn, Pentreuchaf.

Beddau Cŵn – Mae cerrig beddau cŵn teulu'r Angestein yn y lawnt o flaen y Plas

Theatr John Andrews – Llwyfan ar gyfer perfformiadau a stafell aml bwrpas o dan y llwyfan ar gyfer gweithdai ac ati.

Y Winllan – Coedwig 14 acer gyda rhwydwaith o lwybrau troed yn gwau trwyddi.

Y Ddelw: Prif lwybr trwy'r Winllan yn arwain at y ddelw. Rhan o Lwybr Arfordir Cymru.

Solomon Andrews a Glyn y Weddw



Yn arwerthiant Madryn yn 1896 prynodd Solomon Andrews gyfran o'r stad, ac am £15,000 daeth yn berchennog ar y tir sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir o Bwllheli i Drwyn Llanbedrog.

Gosododd dramffordd i gario ymwelwyr i Blas Glyn y Weddw yn ogystal â cherrig adeiladu o chwarel a agorodd ger Carreg y Defaid i'r dref. Erbyn Gorffennaf 1897 roedd tramffordd yn rhedeg yr holl ffordd o ganol tref Pwllheli i fynedfa Plas Glyn y Weddw.

Roedd y plasty wedi'i gynllunio fel oriel, felly erbyn haf 1897 roedd arddangosfa o waith arlunwyr amlwg iawn

yno. Ymhyfrydai Solomon Andrews yn ei bensaerniaeth a'i ffenestri lliw, yn ngwychder y gerddi, y terasau a'r llwybrau. Agorodd ystafelloedd te ac adeiladodd ystafell ddawnsio.

Rhedai'r tram bob hanner awr yn yr haf ac am swllt byddai tocyn tram dwyffordd a mynediad i'r plas a'i erddi. Rhedai tram i'r gweithwyr bob bore a hwyr o Bwllheli i Lanbedrog – i'r chwareli am ddwy geiniog un ffordd.

Câi ymwelwyr o Aberystwyth ddiwrnod i'w gofio wrth deithio efo trên a'r tram a mynediad i Glyn y Weddw am 5 swllt a 6 cheiniog. Ond daeth yr atyniad i ben wrth i'r dramffordd gael ei chwalu mewn storm enbyd yn 1927 a digon tawel fu pethau wedyn.

Yn 1939 cafodd yr oriel gelf ei chau ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd defnyddiodd y 'Land Army' yr adeilad. Ond yn 1945 gwerthodd y Cwmni Andrews y Plas a'r gerddi. Trodd y Plas yn fflatiau preswyl ac yn ystod yr 1950au cafodd tai eu codi ar y parc o'i flaen.

Erbyn yr 1970'au roedd y Plas yn wag a'i gyflwr yn dirywio. Yn 1979 prynodd Gwyneth ap Tomos a'i gŵr Dafydd yr adeilad a'r hyn oedd ar ôl o'r gerddi. Ail sefydlon nhw'r oriel gelf yma.

Ymddiriedolaeth Plas Glyn y Weddw yw perchennog y Plas er 1996 ac mae mudiad Cyfeillion yr Oriol yn cefnogi trwy greu gweithgareddau i godi arian.

Y Ddelw ar y Mynydd



Cyfarwyddadau: *Dilynwch Lwybr Arfordir Cymru unai o Blas Glyn y Weddw, Llanbedrog neu o gyfeiriad Abersoch. Mae'r ddelw ar lethr Mynydd Tir y Cwmwd.*

Mae'r ddelw yn sefyll yn drawiadol ar lwyfan yn edrych dros draeth Llanbedrog ac i gyfeiriad Eryri a Mynyddoedd Meirionnydd.

Mae'r ddelw bresennol yno er 2002 ar ôl ei chodi o'r traeth efo hofrennydd. Fe'i gwnaed gan Huw Jones, gof lleol ar gynllun y ddelw wreiddiol o waith Berwyn Jones, arlunydd o Lanbedrog.



Solomon Andrews gyflwynodd y ddelw gyntaf a'i gosod yma tua 1920. Penddelw bren oddi ar long o Gaerdydd ydoedd a bu yma yn nannedd heli'r môr am hanner can mlynedd nes cafodd ei llosgi gan fandaliaid.

Simon Van de Put, arlunydd a cherfiwr oedd yn byw yn Llanbedrog greodd yr ail ddelw – un fetel y tro hwn. Aed â hi i fyny'r mynydd efo tractor ar ddechrau'r 1980'au. Methodd y ddelw fetel wrthsefyll gwyntoedd y gogledd a stormydd Bae Ceredigion cystal â'r un bren gyntaf. Erbyn diwedd y ganrif roedd wedi cancro a bu'n rhaid cael gwared arni.

Mae'r ddelw bresennol yn gryn dipyn o atyniad ar gylchdaith Mynydd Tir y Cwmwd ar gyrion y Winllan.

Y Winllan



Cafodd llethrau Mynydd Tir Cwmwd ger Plas Glyn y Weddw eu plannu yng nghanol y 19egG. Tyfodd y coed a bu'r Winllan yn fan dymunol i ymwelwyr gerdded a mwynhau'r olygfa ysblennydd dros Fae Ceredigion o gyfnod y Fonesig Elizabeth Jones Parry tan heddiw.

Datblygodd Solomon Andrews yr oriel ymhellach pan sefydlodd ef ystafelloedd te a neuadd ddawnsio yma a denu ymwelwyr i deithio o Bwllheli ar ei dram. Gosododd flaen-ddelw llong mewn man amlwg yn uchel ar y llethrau a daeth hwn yn atyniad ychwanegol wrth gerdded y llwybrau.

Ond yng nghwrs amser dirywiodd y goedwig a chaeodd y llwybrau nes y cafodd Ymddiriedolaeth yr Oriol gyfle i'w phrynu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf dychwelodd y Winllan i'w gogoniant.

Gwnaeth gwirfoddolwyr estyn cymorth drwy glirio'r rhododendron a'r llawryf. Cafodd y llwybrau eu hagor ac ers hydref 2013 mae pamffled lliwgar i'w dilyn – Troedio Llwybrau Plwyf Llanbedrog. Mae'r rhwydwaith llwybrau yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru ac yn arwain at y ddelw bresennol sydd ar y dibyn uwchben Bae Llanbedrog er 2002.

Bellach maent wedi creu maes parcio newydd gan wneud yn sicr bod y coed, yn arbennig y sequoia, yr yw a'r ffawydd yn cael eu gwarchod. Rhaid fu gosod matiau arbennig i warchod gwreiddiau'r coed.

Yn haf 2012 agorwyd amffitheatr drawiadol lle cynhelir amrywiaeth o gyngherddau / weithgareddau yn ystod yr haf. Yn yr ystafell o dan y llwyfan cynhelir gweithdai a cyrsiau.

Mae'r theatr wedi ei henwi yn 'Theatr John Andrews' er côf am y diwedd John Andrews oedd yn ddisgynnydd i Solomon Andrews, ac a fu'n gefnogol iawn i'r Plas.



Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol yr ardal trwy ymweld â Phwllheli – Unwaith yn ganolfan masnachu ac adeiladu llongau a heddiw yn gyrchfan twristiaeth boblogaidd.